# Cynorthwyo i gael cesig i fwrw ebol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo i gael cesig i fwrw ebol. Gallai hyn gynnwys herian caseg a'i sganio neu gynorthwyo i baratoi caseg ar gyfer ffrwythloni artiffisial, gan adnabod arwyddion caseg mewn tymor a chwblhau cofnodion stalwyni priodol.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau o weithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. cynorthwyo i gael cesig i fwrw ebol trwy ddal, cyflwyno a lleoli'r gaseg yn gywir o dan oruchwyliaeth a lle y bo'n briodol, cynorthwyo i sganio'r gaseg, ar gyfer ffrwythloni naturiol neu ffrwythloni artiffisial
3. nodi adweithiau'r gaseg i geffylau eraill, yn arbennig gwrywod a hysbysu'r person priodol ynghylch y rhain
4. rhoi gwybodaeth ar gyfer cwblhau dogfennau stalwyni
5. cynnal lefelau hylendid a bioddiogelwch addas
6. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y rhesymau dros herian a/neu sganio i ganfod oestrws naill ai ar gyfer ffrwythloni naturiol neu ffrwythloni artiffisial
3. pwysigrwydd arsylwi arwyddion o oestrws
4. y broses ffrwythloni neu 'ffrwythloni artiffisial (A.I.) a'r defnydd cywir o stociau yn y naill achos a'r llall
5. prif gyfnodau oestrws yn y gaseg
6. adweithiau stalwyni i gesig gydag oestrws
7. y pwyntiau i fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda herwyr a stalwyni, yn cynnwys peryglon posibl
8. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth atgenhedlu, a'r dulliau o gyflawni hyn
9. pwysigrwydd cynnal dogfennau stalwyni a'r math o wybodaeth y mae angen ei chofnodi
10. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Cynnal y wybodaeth ganlynol am y stalwyn:

- dyddiad bwrw ebol
- cesig
- stalwyni
- herian a ffrwythloni

Cynorthwyo i gael cesig i fwrw ebol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq234 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; caseg; ebol; beichiogrwydd, herian; stalwyn |